# Siarter y Myfyrwyr

Gorffennaf 2024



The Open University

## Sut mae ein cymuned yn gweithio

Mae'r Brifysgol Agored yn fwy na dim ond lle i ddysgu – mae'n gymuned. Fel aelodau o gymuned Y Brifysgol Agored, mae gennym ni – yn staff ac yn fyfyrwyr – gyfrifoldebau tuag at ein gilydd a fydd, os cânt eu cyflawni, yn galluogi myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial a'r Brifysgol i ffynnu.

Mae'r Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr yn cymryd Siarter y Myfyrwyr, a ddatblygwyd ar y cyd, o ddifrif iawn ac maent yn gwbl ymrwymedig i'w gweithredu. Mae'n nodi'r hyn y gallwn ei ddisgwyl oddi wrth ein gilydd ac yn ddatganiad o'n gwerthoedd a rennir yn hytrach na llyfr rheolau.

## Bedair Egwyddor

Mae Siarter y Myfyrwyr yn disgrifio ffyrdd y dylai aelodau o gymuned y Brifysgol gydweithio mewn partneriaeth ac mae'n seiliedig ar bedair egwyddor:

1. Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch
2. Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu
3. Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu
4. Rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol – bod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau; a bod yn gynhwysol, yn arloesol ac yn ymatebol.

Wrth i'r Brifysgol barhau i newid ac esblygu, byddwn yn adolygu'r Siarter hon bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu ein hanghenion a'n heriau presennol, tra'n parhau i gefnogi'r prif nod o helpu ein myfyrwyr i lwyddo

## Gwerthoedd

Fel aelodau o gymuned groesawgar a chynhwysol, byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Rydym yn trin ein gilydd â chwrteisi, goddefgarwch a pharch, gan barchu hawl unigolion i gael gwahanol gredoau a barn ac i'w mynegi yn unol â'n hymrwymiad rhyddid i siarad a rhyddid academaidd.
2. Gwerthfawrogi amrywiaeth, yn disgwyl ac yn herio anghydraddoldebau, ac yn ymrwymo i fod yn brifysgol gwrth-hiliaeth, gwrth-wahaniaethol, hygyrch a chynhwysol, fel bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.
3. Ymrwymo i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy ar gyfer ein Prifysgol.
4. Cyfathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd clir, perthnasol, cywir ac amserol.
5. Cefnogi Cymdeithas y Myfyrwyr i ymgysylltu â'i holl aelodau i feithrin cymuned myfyrwyr fywiog a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr.
6. Cefnogi ymgysylltiad dilys â myfyrwyr yn weithredol wrth wneud penderfyniadau yn y Brifysgol, cau'r ddolen adborth, ac ymrwymo i feithrin partneriaeth rhwng staff a myfyrwyr
7. Ymddwyn yn foesol ac yn dryloyw, gan ddarparu a defnyddio ffyrdd teg ac agored o fynd i'r afael â'n pryderon a'n cwynion, gan ddysgu ohonynt.
8. Rydym yn herio ac yn adrodd ar unrhyw fwlio ac aflonyddu er mwyn sicrhau fod pob aelod o gymuned y Brifysgol yn gallu gweithio ac astudio'n ddiogel
9. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi iechyd meddyliol a lles yr holl aelodau o gymuned y Brifysgol

10. Fel myfyrwyr, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu ac yn ymrwymo i astudio ac ymchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gan gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb academaidd
11. Fel staff, mae pob un ohonom yn chwarae ein rhan wrth alluogi dysg deg o safon, a hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ymchwil a gweithgaredd ysgolheigaidd, gan sicrhau bod pob myfyriwr yn cael cefnogaeth.
12. Cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod cyfraniad pob aelod at ei llwyddiant.

## Yr iaith Gymraeg

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Brifysgol Agored wedi ymrwymo i drin Cymraeg a Saesneg yn gydradd. Am ragor o wybodaeth, ewch i open.ac.uk/wales/cy/yr-iaith-gymraeg.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Adolygwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2024.**

The Open University